

Prosiect AilGychwyn: Integreiddio Ffoaduriaid



Ariennir yn Rhannol gan
Lywodraeth Cymru
Part Funded by
Welsh Government

Caiff y prosiect AilGychwyn: Integreiddio Ffoaduriaid ei ariannu'n rhannol drwy Gronfa Lloches, Ymfudo ac Integreiddio yr Undeb Ewropeaidd. Gwneud rheoli llif ymfudo'n fwy effeithiol ar draws yr Undeb Ewropeaidd.

The ReStart: Refugee Integration project is part-funded through the European Union Asylum Migration Integration Fund. Making management of migration flows more efficient across the European Union.

Manteision Cyflogi Ffoaduriaid

Manteision i fusnesau

Addysg, Cymwysterau a Sgiliau

Mae ein cleientiaid yn dod i'r Deyrnas Unedig gydag ystod amrywiol iawn o gymwysterau addysgol a sgiliau sy'n gysylltiedig â gwaith [1]. Mae cyfran fawr o'r ymgeiswyr hyn wedi cael **cryn dipyn o addysg**. Canfu Sefydliad Nuffield fod 45% o ffoaduriaid yn meddu ar gymhwyster cyn teithio i'r Deyrnas Unedig. Canfu ymchwil o Farchnad Lafur y Deyrnas Unedig fod mwy o ffoaduriaid (31%) mewn addysg ar ôl iddynt gyrraedd 20 oed, o'u cymharu â gwladolion y Deyrnas Unedig (23%) [2]. Yn ôl adolygiad gan Deloitte [3] mae 38% o ffoaduriaid o Syria wedi cael addysg prifysgol ac roedd 33% mewn swyddi a oedd yn gofyn am sgiliau uchel neu yn y diwydiant gwasanaethau proffesiynol. Gall yr unigolion **hynod fedrus** ac addysgedig hyn fod yn gaffaeliaid gwych i'ch busnes.



Iaith

Mae llawer o'n cleientiaid yn siarad nifer o ieithoedd, yn ogystal â'u mamiaith ac maent yn awyddus i ddatblygu eu sgiliau Saesneg ymhellach. Bydd integreiddio o fewn y gweithle yn helpu gyda hyn. Gall y ffaith bod cyfran fawr o'n cleientiaid yn siarad ieithoedd fel **Arabeg, Mandarin a Ffrangeg**, ieithoedd sy'n cael eu siarad yn eang ledled y byd, fod yn ddefnyddiol iawn yn yr amgylchedd masnachu **ar ôl ymadael â'r Undeb Ewropeaidd**.

Amrywiaeth

Mae ein ymgeiswyr yn dod o ystod eang o gefndiroedd a diwylliannau sy'n gallu cynnig **ffyrdd newydd o feddwl** a dealltwriaeth o sut i apelio at farchnadoedd rhyngwladol ac at gwsmeriaid sy'n ddiwylliannol amrywiol. Canfu ymchwil gan McKinsey and Company [4] fod timau amrywiol iawn 33% yn fwy tebygol o berfformio yn well na chystadleuwyr o ran proffidioldeb. Canfu ymchwil arall fod amrywiaeth yn arwain at 57% o gydweithio gwell. [5].

Adennill eich buddsoddiad

Gall busnesau ddatblygu sgiliau eu gweithwyr presennol trwy roi'r cyfle iddynt hyfforddi, cefnogi a mentora dechreuwyr newydd, sydd yn ei dro yn helpu i integreiddio ffoaduriaid yn llwyddiannus. Roedd ymchwil gan Busnes yn y Gymuned [6] yn dangos bod 90% o fusnesau oedd yn gwneud hyn yn dweud ei fod o fudd i'w gweithlu. **Amcangyfrifir bod yr elw ar fuddsoddi mewn cyflogi ffoaduriaid fel gweithwyr yn gadarnhaol yn y rhan fwyaf o achosion, gyda chynnydd o 706% ar y buddsoddiad gwreiddiol [7].**

Gwytnwch

Mae ein cleientiaid wedi profi trallod a thrawma sylweddol yn eu mamwlad ac yn ystod eu taith i'r Deyrnas Unedig [8]. Mae'r unigolion hyn yn aml yn meddu ar **wydnwch** mawr o ganlyniad i'w profiadau. Gall y gwydnwch hwn gyflwyno agwedd **benderfynol, dyfeisgarwch a hyblygrwydd** i'ch busnes y gellir ei ddefnyddio yn y gweithle [9].



Cyfraddau uchel o ran cadw gweithwyr

Yn 2009, asesodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2019) [10] fod cyfradd gyflogaeth uchel ym marchnad lafur gyffredinol y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd, sy'n golygu bod cyflogwyr yn cael trafferth llenwi swyddi gwag, yn enwedig swyddi lefel mynediad. **Mae 80% o gwmnïau sydd wedi cyflogi ffoaduriaid yn fodlon â'u gwaith [11]** ac mae cyflogwyr wedi nodi **cyfradd gadw uwch** ar gyfer y grŵp hwn o unigolion penderfynol o gymharu â gweithwyr eraill.

Cyfrifoldeb cymdeithasol

Mae 60% o'r unigolion sydd wedi eu geni rhwng dechrau'r 80au a diwedd y 90au yn bwriadu ymuno â chwmnïau sydd â **phwrpas cymdeithasol cadarnhaol** wedi'i wreiddio yn eu hethos [12]. Mae helpu'r grŵp hwn o bobl i gael gwaith yn ffordd y gall eich cwmni **arwain drwy esiampl** a sicrhau ei fod yn weithle y gallwch ymfalchïo ynddo, sy'n cyfrannu at **gydlyniant cymunedol ac integreiddio ffoaduriaid**.

Manteision i'n cleientiaid

Y gallu i gyfrannu at gymdeithas ac annibyniaeth

Mae ymchwil gan TENT [13] wedi dangos bod gan ffoaduriaid **gymhelliant mawr i ddod o hyd i waith a'i gynnal**, fel rhan o ddatblygu eu bywydau newydd yn y Deyrnas Unedig a hefyd i wneud cyfraniad cadarnhaol i'w cymuned leol.



Integreiddio

Mae'r Cenhedloedd Unedig yn tynnu sylw at gyflogaeth fel un o'r argymhellion gorau **i helpu ffoaduriaid i integreiddio i'r gymdeithas yn Ewrop [14]**. Mae gweithio mewn amgylchedd lle mae'r mwyafrif yn siarad Saesneg yn gwella iaith sgwrsio a geirfa. Mae gwneud cysylltiadau â chydweithwyr yn rhoi hwb i rwydweithiau cymdeithasol ac yn helpu rhywun i deimlo'n rhan o'r gymuned leol.

Geirdaon

Un o'r rhwystrau i gael gwaith yw **diffyg geirdaon a phrofiad gwaith yn y Deyrnas Unedig [2]**. Mae'n hanfodol bod unigolyn yn gallu darparu geirda ar gyfer bron pob swydd. I rywun nad yw erioed wedi cael swydd yn y Deyrnas Unedig, gall fod yn anodd darparu geirda. Efallai y bydd yn amhosibl cael geirda o swydd yn eu gwlad enedigol er mwyn i'r person fod yn ddiogel ac ni fyddai'n debygol o fod yn Saesneg. Os gall cyflogwyr ddeall hynny a gwneud darpariaethau megis profiad gwaith dros dro a rhoi geirda neu gyfweiliad am swydd ar y diwedd yn hytrach na gofyn am eirda cychwynnol, gallai hyn agor cyfleoedd i'n cleientiaid.

Manteision eraill

Economi'r Deyrnas Unedig

Os nad yw unigolyn bellach **yn dibynnu ar Gredyd Cynhwysol ar gyfer incwm**, mae hyn o fudd i'r economi ac maent hefyd yn llenwi swyddi yn y farchnad lafur a allai fel arall aros yn wag. Pan fydd rhywun yn ennill cyflog, mae'n debygol y bydd yn gwario mwy sydd eto'n hybu'r economi.

Llyfryddiaeth

- [1] Prifysgol Rhydychen, "Talent Displaced: The economic lives of syrian refugees in Europe," Canolfan Deloitte ac Astudiaethau Ffoaduriaid, Rhydychen, 2018.
- [2] I. V.-S. C. Ruiz, "Differences in labour market outcomes between natives, refugees and other migrants in the UK," Canolfan Mudo, Polisi a Chymdeithas Prifysgol Rhydychen, 2017.
- [3] Canolfan Deloitte ac Astudiaethau Ffoaduriaid, "Talent displaces: The economic lives of syrian refugees in Europe," Prifysgol Rhydychen, 2018.
- [4] McKinsey and Company, "Delivering through Diversity," 2018.
- [5] Y Bwrdd Gweithredol Corfforaethol, "Driving Retention and Performance Through Employee Engagement," 2008.
- [6] Busnes yn y Gymuned, "The Business Benefits of Work Inclusion," 2015.
- [7] Proses yr Hag ar gyfer Ffoaduriaid a Mudo, "The Return on Investment on Migration: What is in it for business?," 2015.
- [8] T. J. P. W. N. Craig, "Mental Health needs of refugees," Psychiatry, cyf. 8, rhif. 9, tt. 351-354, 2009.
- [9] Asiantaeth Ffoaduriaid y Cenhedloedd Unedig, Seftdliad Mudo Rhyngwladol y Cenhedloedd Unedig a Busnes yn y Gymuned, "Tapping Potential: Guidelines to Help British Businesses Employ Refugees," y Swyddfa Gartref, 2019.
- [10] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, "UK labour Market: January 2019," 2019.
- [11] Asiantaeth Ffoaduriaid y Cenhedloedd Unedig a'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, "Engaging with employers in the hiring of refugees: A 10-point multi-stakeholder action plan for employers, refugees, governments and and civil society," 2018.
- [12] Deloitte, "The 2015 Deloitte Millennial survey: Mind the Gaps," 2015.
- [13] Sefydliad TENT a Sefydliad Polisi Cyllidol, "Refugees as employee: Good retention strong recruitment," 2018.
- [14] Adran Materion Economaidd a Chymdeithasol y Cenhedloedd Unedig, "Refugees and Social Integration in Europe," 2018.